



Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 27AIN MEHEFIN, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 17/06/16)

# **PWYLLGOR SAFONAU**

## **AELODAETH**

### **Aelodau Etholedig (3)**

Y Cynghorwyr

Lesley Day  
Eryl Jones-Williams  
Michael Sol Owen

### **Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)**

Margaret E.Jones  
Jacqueline Hughes  
David Wareing  
Einir Young  
Aled Jones

### **Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)**

David Clay

## R H A G L E N

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

### 4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2016 fel rhai cywir (ynghlwm).

### 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2015/16

10 - 23

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

### 6. MYNYCHU AC ARSYLLU CYFARFODYDD

24

Adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

### 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

25

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

---

## PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 18 EBRILL 2016

---

**Yn bresennol:-**

**Aelod Etholedig:-** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriad:-** Y Cynghorydd Lesley Day.

Croesawyd Mr Aled Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau.

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Lesley Day yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2016 fel rhai cywir.

### 3. CEISIADAU AM ODDEFEB

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar ddau gais am oddefeb gan aelodau o Gyngor Tref Tywyn mewn perthynas â thrafodaethau pwyllgor rheoli safle carafanau y mae'r Gyngor Tref yn berchen arno, sef Parc Carafanau a Gwersylla Ynysymaengwyn, oherwydd bod ganddynt fuddiannau sy'n rhagfarnu drwy eu cysylltiadau â safleoedd carafanau cyfagos.

Manylwyd ar y ddau gais yn unigol, sef:-

- Cais gan y Cynghorydd Richard Vaughan, am hawl i siarad yn unig.
- Cais gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, am hawl i siarad a phleidleisio.

#### Cais y Cynghorydd Richard Vaughan

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr ymhellach:-

- Bod yr ymgeisydd yn gallu defnyddio ei brofiad o redeg busnes tebyg i ddarparu cyngor a gwybodaeth i Bwyllgor Rheoli Safle Carafanau Ynysymaengwyn.
- Bod rheolwr safle Ynysymaengwyn a'i wraig yn mynychu'r cyfarfodydd hefyd.
- Mai mater i'r pwyllgor oedd cloriannu pwysigrwydd y Cod Ymddygiad yn erbyn cyfraniad yr aelod i'r Pwyllgor Rheoli.

Yn dilyn trafodaeth:-

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais am oddefeb am y rhesymau a ganlyn:-**

- Tra yn derbyn bod gan yr aelod wybodaeth ac arbenigedd oedd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i waith Pwyllgor Maes Carafanau Ynysymaengwyn, 'roedd yn medru darparu'r wybodaeth gan ei fod yn rhedeg maes carafanau masnachol tebyg, cyfagos. 'Roedd y buddiant felly yn un sylweddol iawn ac felly 'roedd y perygl o niwed i hyder y cyhoedd yn uchel. Nid oedd y pwyllgor o'r farn bod y wybodaeth a'r cyngor allai ddarparu mor arbenigol neu unigryw fel nad oedd modd yn rhesymol ei gael o ffynonellau eraill.

Cais y Cynghorydd Anne Lloyd Jones

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr ymhellach:-

- Gan nad oedd yr ymgeisydd yn rhedeg safle gyda'r un math o ofynion nac ar yr un raddfa â Pharc Carafanau a Gwersylla Ynysymaengwyn (eithr safle trwyddedig ar gyfer aelodau'r Clwb Carafanau yn unig), nid oedd mewn sefyllfa i gynnig yr un lefel o arbenigedd i Bwyllgor Rheoli Safle Carafanau Ynysymaengwyn.
- Ei fod ar ddeall bod yr aelod yn weithgar gyda Chwmni Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn medru adrodd yn ôl o'r maes hwnnw i'r Pwyllgor Rheoli.
- Mai mater i'r pwyllgor oedd cloriannu pwysigrwydd y Cod Ymddygiad yn erbyn cyfraniad yr aelod i'r Pwyllgor Rheoli.

Yn dilyn trafodaeth:-

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais am oddefeb am y rhesymau a ganlyn:-**

- Nid oedd tystiolaeth fod gan yr aelod arbenigedd neu wybodaeth arbenigol neu unigryw a fyddai gymaint o fudd i waith Pwyllgor Maes Carafanau Ynysymaengwyn fel y byddai'n cyfiawnhau caniatáu iddi gymryd rhan yn nhrefnadaethau'r pwyllgor. 'Roedd y Pwyllgor Safonau, felly, o'r farn y byddai hyder y cyhoedd yn cael ei niweidio petai'n caniatáu goddefeb yn yr achos hwn.

#### **4. HUNAN-ASESIAD A RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor gynnal asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2015-16 ac ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2016-17.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y swyddogaethau a restrwyd yng ngholofn gyntaf yr hunan asesiad gan nodi pa asesiad a gredai oedd yn berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:-

Categori 1 – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion yn llawn.

Categori 2 – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cwrdd â'r gofynion sylfaenol, ond bod modd gwneud rhagor i gwrdd yn llawn.

Categori 3 – Dim tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion.

Gwahoddwyd y pwyllgor hefyd i ychwanegu at y colofnau 'Tystiolaeth' a 'Champau Pellach' ac eglurwyd y byddai unrhyw awgrymiadau am gamau pellach yn bwydo trwedd i raglenni gwaith y pwyllgor i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

- (a) **Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i waith (ychwanegiadau i'r ddogfen mewn llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu):-**

SWYDDOGAETH	ASESIAD (1/2/3)	Tystiolaeth	Camau pellach
Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau	<u>1</u>	Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.  Rhai o'r aelodau wedi mynychu pwyllgorau / cyfarfodydd Cyngor Llawn, Cabinet a Chynghorau Tref a Chymuned fel sylwebyddion.	Parhau i fynychu a chefnogi  Parhau i gefnogi gan gynnwys defnydd gwe ddarlledu
Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned  Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor	Ystyried adborth Hyfforddiant a rhaglen newydd
Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Trefnwyd i gylchredeg arweiniad diwygiedig ar y Cod Ymddygiad gan yr Ombwdsmon i holl aelodau'r Cyngor  Rhoddwyd sylwadau ar elfennau o Fil Llywodraeth Leol ( Cymru) 2015	Adolygu newidiadau diweddaraf i'r Cod
Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau  Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru  Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir  Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.	Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth  Ystyried y diwigiadau i'r Cod ymddygiad a sut i rannu'r newid.
Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Mynychodd aelodau'r gynhadledd safonau yng Nghaerdydd ac adrodd yn ôl.  Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned	Rhaglen Hyfforddiant newydd

		<b>Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor</b>	
<b>Rhoi goddefebau i aelodau</b>	<u>1</u>	Ymdriniwyd â 2 gais am oddefebau gan aelodau o'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned  Cymerwyd trosolwg o'r gyfundrefn i sicrhau cysondeb a phriodoldeb.	
<b>Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon</b>	<u>1</u>	Cynhaliwyd 1 gwrandawriad yn 2015/16	
<b>Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad</b>	<i><u>(Dim byd i'w fesur)</u></i>	Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath	
<b>Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned</b>	<u>2</u>	Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i glerc cod cynghorau cymuned yn Hydref 2013  Anfonir adroddiad blynyddol y Pwyllgor at yr holl gynghorau cymuned.  Canfasiwyd barn y cynghorau cymuned ar hyfforddiant yn seiliedig ar y Cod a dylanwad llywodraethu da. Cynhaliwyd Hyfforddiant ar gefn y gwaith yma mewn 4 canolfan.	<b>Rhaglen Hyfforddiant amgen.</b> ‘Roedd angen, fodd bynnag, symud ymlaen i gynhyrchu trefn Ddatrys Leol enghreifftiol at ddefnydd y cynghorau cymuned.

(b) Cynnwys troed nodyn i'r hunan asesiad yn cynnwys rhywfaint o'r ystadegau o safbwynt presenoldeb yn yr hyfforddiant ac yn datgan, o ystyried nad oes gorfodaeth ar aelodau i fynychu, bod y Pwyllgor Safonau o'r farn ei fod wedi cyflawni ei ofynion yn dda iawn o ran cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad, ac y dylai cynghorwyr gymryd yr hyfforddiant fwy o ddifri'.

(c) Cymeradwyo'r rhaglen waith ganlynol ar gyfer 2016/17:-

27 Mehefin, 2016

- Adroddiad Blynyddol
- Honiadau yn erbyn Aelodau
- Adolygu trefn i aelodau fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a chynghorau cymuned – gwersi a ddysgwyd. (*Gofynnwyd i'r aelodau feddwl rhwng hyn a Mehefin sut y gellid mynd ynghylch hyn.*)

### 3 Hydref, 2016

- Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon
- Honiadau yn erbyn aelodau
- Trefn Datrys Lleol Model Cynghorau Cymuned
- Adolygiad protocolau

### 23 Ionawr, 2017

- Cofrestr rhoddion a lletygarwch
- Cofrestr Datgan Buddiant
- Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu
- Honiadau yn erbyn aelodau

### 27 Mawrth, 2017

- Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith
- Hyfforddiant
- Paratoi ar gyfer etholiad 2017 – codi ymwybyddiaeth clercod cynghorau tref a chymuned ynglŷn â'r disgwyliadau sydd arnynt o safbwynt darparu gwybodaeth i ddarpar gynghorwyr parthed gofynion y Cod Ymddygiad.

## 5. DIWYGIADAU I'R COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor nodi diwygiadau i rai elfennau allweddol o'r Cod Ymddygiad presennol, yn sgil cyflwyno Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 ar 1 Ebrill, 2016. Gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor ystyried goblygiadau'r newidiadau i gynghorau tref a chymuned.

Eglurwyd y byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig.

### **PENDERFYNWYD**

- (a) Nodi'r newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau.
- (b) Ysgrifennu at glercod y cynghorau cymuned a thref i dynnu sylw at y newidiadau a'r camau sydd angen eu cymryd mewn ymateb i hynny.

## 6. COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi ei bod yn ofynnol bellach i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn electronig ac yn cyflwyno diweddariad ar y broses.

### **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.



**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.10 y.h.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

<b>Pwyllgor :</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>29 Mehefin 2016</b>
<b>Teitl :</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2015-16</b>
<b>Awdur :</b>	<b>Swyddog Monitro</b>
<b>Gweithredu :</b>	<b>Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad</b>

## **Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylid cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn, Byddai hyn yn fodd o godi proffil y Pwyllgor a hyrwyddo ei waith.
2. Atodaf er sylw'r Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft , ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2016.
3. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad, a hefyd ystyried ynglŷn dulliau o'i gyflwyno a'i ddsbarthu.

## **Argymhelliad**

4. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL  
PWYLLGOR SAFONAU  
CYNGOR GWYNEDD**

**2015 - 2016**

## **RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

*[i'w ychwanegu]*

**Dr Einir Young**  
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

**DRAFT**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

*[i'w ychwanegu]*

**Iwan Evans  
Swyddog Monitro  
Cyngor Gwynedd**

DRAFT

## CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

## **AELODAU'R PWYLLGOR**

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

### **Aelodau Annibynnol**

#### **Linda Byrne (2012 -15)**

Mae Linda wedi byw yng ngogledd Cymru ers 10 mlynedd, ac erbyn hyn yn gweithio i Gyngor ar Bopeth yng Nghaernarfon fel gwirfoddolwr. Mae ei gŵr yn Gymro a thri o'i wyrion ac wyresau yn siaradwyr Cymraeg. Bu'n darlithio mewn colegau addysg bellach yng ngogledd ddwyrain Lloegr a Chymru cyn gweithio fel Cynghorydd Anabled i Fyfyrrwyr ym mhrifysgolion Durham a Bangor. Gwasanaethodd fel cynghorydd tre am chwe blynedd a chynghorydd bwrdeistrefol am wyth mlynedd yn Sedgefield, Swydd Durham.

#### **Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiakon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.

#### **Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Einir yw Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor ac mae ei hadran yn y broses o gael ei hailstrwythuro i fod yn ganolbwynt corfforaethol amlwg i arwain ar ddatblygu cynaliadwy yn y Brifysgol. Un o brif ddiddordebau Einir yw hwyluso trafodaeth ynglŷn â'r gwrthdaro sy'n deillio o geisio taro'r cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym mhob penderfyniad a wnawn fel busnesau, sefydliadau ac unigolion. Ystyriaeth sy'n dod yn fwy pwysig ar draws Cymru yn sgîl y ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan fod dyletswydd stadudol ar nifer o gyrff i fabwysiadu yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu holl benderfyniadau. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Gwynedd ac i'w gadeiro.

### **Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)**

Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr lan, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.

### **David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

### **Aled Jones (aelod ers 2016)**

*[manyllion i'w hychwanegu]*



## **Aelod Pwyllgor Cymunedol**

### **Cynghorydd David Clay (aelod ers 2008)**

Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 29 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Mae hefyd yn gyn gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## **Aelodau Cyngor Gwynedd**

### **Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod ers 2011)**

Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynnyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwynedd, lle gall dynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae hefyd yn Bencampwr Gofalwyr y Sir. Mae'n gyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ac mae ei ddiddordebau yn cynnwys chwarae golff yng Nghlwb Brenhinol Dewi Sant, Harlech ac yn Nolgellau.

### **Cynghorydd Michael Sol Owen (aelod ers 2012)**

Mae Michael yn byw ym Mhwillheli ac yn cynrychioli rhanbarth etholiadol Gogledd Pwllheli ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012. Enillodd radd mewn Ffiseg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, bu'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ym Mhwillheli a hefyd yn gweithio i'r Cynulliad fel ymgynghorydd busnes. Mae wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli ers dros 30 mlynedd ac mae'n gadeirydd elusen Cynllun Ieuencid Pwllheli. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd a hefyd yn gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

### **Cynghorydd Lesley Day (aelod ers 2014)**

Bu Les yn Gynghorydd ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012 ac ar hyn o bryd mae hi'n Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd. Mae hi wedi bod yn Gynghorydd Dinas Bangor ers 1991 ac mae hi'n gyn-faer, yn cynrychioli Ward Garth ym Mangor. Mae hi'n gyn-aelod a Gyngor Bwrdeistrefol Arfon.

Mae cymwysterau, gyrfa a diddordebau Les yn gyfan gwbl mewn Llywodraeth Leol. Cafodd ei chymhwyster cyntaf mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Surrey. Ar ôl dychwelyd i Fangor, ei thref

enedigol, cafodd gymwysterau ariannol llywodraeth leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd. Ar ôl yr aildrefnu yn 1996, trosglwyddodd Les i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Les yn Gadeirydd Canolfan Gymdeithasol Garth ac yn lywodraethwr yn Ysgol Hiracl.

## **Y Swyddog Monitro**

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

### **Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: [IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru) Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol). E-bost: [sionhuws@gwynedd.llyw.cymru](mailto:sionhuws@gwynedd.llyw.cymru) Ffôn: (01286) 679168

## **GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015 - 2016**

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

### **Achosion fu gerbron y Pwyllgor**

Cynhaliwyd gwrandawriad i ystyried un gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau etholedig.

Cynghorydd Julian Kirkham, Cyngor Cymuned Arthog

Cerydd am dorri paragraff 6(1)(a) - peidio ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod

### **Cwynion eraill**

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2**.

### **Goddefebau**

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor ddau gais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma. Gwrthodwyd y ddau gais.

### **Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad**

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid cynnig hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i aelodau a chlercod cynghorau cymuned a thref y sir ym mis Hydref 2015. Cynhaliwyd pedair sesiwn, ym Mhwlheli, Caernarfon, Dolgellau a'r Bala. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan y Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) a mynychodd cynrychiolwyr o 30 o'r 64 cyngor tref a chymuned.

### **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac

adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

DRAFT

## **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2015-16**

### **13 Ebrill 2015**

- Gwrandawriad – penderfynu ar gŵyn yn erbyn aelod etholedig

### **20 Ebrill 2015**

- Cynnal Hunan Aseiad
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru
- Derbyn Cofnodion Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

### **29 Medi 2015**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2014/15
- Ystyried canllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad
- Llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod

### **5 Hydref 2015**

- Ystyried dau gais am oddefeb
- Derbyn adroddiad gan Uwch Reolwr Refeniw a Risg y Cyngor ar Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

### **25 Ionawr 2016**

- Ystyried Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a chyflwyno sylwadau i'w hystyried fel rhan o ymateb corfforaethol y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru
- Derbyn adroddiad ar Gynhadledd Safonau 2015
- Trafod arsyllu cyfarfodydd o bwyllgorau'r Cyngor a chynghorau cymuned a thref

## Atodiad 2

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

<b>Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad</b>	<b>Penderfyniad yr Ombwdsmon</b>
Cwyn fod aelod cyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol	Dim ymchwiliad. Dim tystiolaeth fod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd.
Bod aelod wedi tresmasu ar eiddo'r achwynydd, wedi dadlau ag ef ac wedi cydio yn ei fys a'i blygu /nôl. Galwyd yr heddlu	Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth bod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Nododd yr Ombwdsmon bod yr heddlu wedi eu galw.
Cwyn bod aelod o gyngor tref wedi cymryd rhan mewn cyfarfod lle roedd ganddi fuddiant oedd yn rhagfarnu.	Dim camau pellach i'w cymryd. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn fod tystiolaeth i awgrymu torri'r cod ond na fyddai'r Pwyllgor Safonau, yn yr amgylchiadau, yn rhoi unrhyw gosb bellach.
Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth.	Pwyllgor Safonau yn dyfarnu ei fod wedi torri'r cod ac yn penderfynu y dylai dderbyn cerydd.
Cwyn yn erbyn cynghorydd sir gaen aelod o'r cyhoedd, ei fod wedi cynnal ymgyrch leol mewn cysylltiad â mater penodol, ac wedi camarwain swyddogion y cyngor ynglŷn â'r amgylchiadau yn yr ardal.	Dim ymchwiliad – achwynydd heb ddarparu tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau.

<p>Cwynion gan bedwar unigolyn yn deillio o'r un digwyddiad. Cwyno bod cynghorydd sir wedi gwneud cyhuddiadau difrifol nad oeddynt yn wir am unigolion oedd wedi bod yn cynnal protest, mewn e-byst ac ar Facebook.</p>	<p>Dim ymchwiliad - mae gan yr aelod yr hawl i fynegi barn yn enwedig os yw'n farn wleidyddol. Fel aelod etholedig roedd ganddo'r hawl i rannu ei farn wleidyddol ynglŷn â'r digwyddiadau dan sylw.</p>
<p>Roedd y cynghorydd wedi dwyn i ben sgwrs ffôn gyda'r achwynydd mewn perthynas â difrod a wnaed i eiddo'r achwynydd.</p>	<p>Dim ymchwiliad.</p> <p>Tystiolaeth annigonol i gadarnhau'r gŵyn. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio heb dystiolaeth gref sy'n awgrymu torri'r cod.</p>
<p>Roedd ymddygiad y cynghorydd mewn cyfarfod o'r cyngor tref wedi bod yn ymosodol tuag at, ac yn gwahaniaethu yn erbyn, corff lleol yn ystod trafodaeth ar gais am arian gan y corff hwnnw.</p>	<p>Dim ymchwiliad.</p> <p>O'r dystiolaeth oedd ar gael nid oedd hi'n ymddangos bod yr aelod wedi torri'r cod. Roedd ganddo'r hawl, fel rhan o'i gyfrifoldebau fel cynghorydd, i ofyn cwestiynau a mynnu cadarnhad o fanylion yr ymgeisydd.</p>
<p>Cwyn gan gyd gynghorydd tref fod aelod wedi defnyddio ei gamera i fwlio'r achwynydd ar ddau achlysur ac wedi ei sarhau'n eiriol ar sawl achlysur.</p>	<p>Dim ymchwiliad.</p> <p>Pan ddigwyddodd rhai o'r materion honedig nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn y bydd y cod yn berthnasol i gynghorydd pan fydd yn gweithredu fel unigolyn preifat, ac nid oedd yn ymddangos bod yr amgylchiadau hynny yn bodoli yn yr achos hwn. Nid oedd yr achwynydd yn medru cyflwyno dystiolaeth i gefnogi'r honiadau eraill.</p>

# Eitem 6

<b>CYFARFOD</b>	<b>PWYLLGOR SAFONAU</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>27ain Mehefin 2016</b>
<b>PENNAWD</b>	<b>MYNYCHU AC ARSYLLU CYFARFODYDD.</b>
<b>AWDUR</b>	<b>IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO</b>

## Cefndir

1. Mae'r Pwyllgor Safonau drwy ei gynllun gwaith wedi annog aelodau i fynd ati i ymweld â chyfarfodydd Cyngor Gwynedd a Chynghorau Cymuned y Sir. Mae'n debyg mai prif amcan yr ymarfer oedd rhoi cyfle i aelodau ddod yn gyfarwydd â sut oedd fforymau aelodau Cyngor Gwynedd neu gynghorau cymuned yn gweithredu. Cyfrwng i osod cyd-destun pwysig ar gyfer arfer eu swyddogaethau.
2. Yn ystod y cyfnod yma cafwyd eitem sefydlog ar y rhaglen ac adroddwyd ar ymweliadau. Nodwyd hefyd fod dyfodiad gwe ddarledu rhai cyfarfodydd Cyngor Gwynedd wedi creu cyfle i arsyllu cyfarfodydd yn llawer rhwyddach. Yn ystod y cyfnod adroddwyd fod aelodau wedi ymweld â Chynghorau Llanystumdwy a Llandwrog a derbyniwyd adborth o'r cyfarfodydd yma.

Ar hyn o bryd trefniant ad-hoc sydd mewn lle ac anogir aelodau i fynychu cyfarfodydd yn eu hardal. Er nad oes dim yn atal aelodau rhag mynychu cyfarfodydd cyhoeddus na dilyn gwe ddarlediadau nid oes strwythur nac amcanion ffurfiol wedi ei osod ar gyfer gwneud hyn. Ar y llaw arall gosodwyd y gwaith yma yn y Cynllun gwaith oherwydd gwelwyd fod budd datblygol mewn annog y ddealltwriaeth yma.

Mae'n amserol adolygu'r drefn a'r budd a gafwyd. Y cwestiwn i'w gyfarch yw adnabod os oes gwerth mewn adnabod rhaglen fwy strwythuredig o weithgareddau.

## Argymhelliad

Fod y Pwyllgor yn ystyried y budd mewn trefnu rhaglen fwy ffurfiol o arsyllu cyfarfodydd.



# Eitem 7

<b>Pwyllgor :</b>	<b>PWYLLGOR SAFONAU</b>
<b>Dyddiad :</b>	<b>29 Mehefin 2016</b>
<b>Teitl :</b>	<b>Honiadau yn erbyn aelodau</b>
<b>Awdur :</b>	<b>Swyddog Monitro</b>
<b>Gweithredu :</b>	<b>Er gwybodaeth</b>

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 7294/201600258

Dyddiad derbyn: 12/04/16

#### **Cwyn**

Cwyn bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu ar sawl achlysur ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd.

#### **Penderfyniad**

Ombwdsmon yn ymchwilio.

### 2.2 Achos 201600999

Dyddiad derbyn: 23/05/16

#### **Cwyn**

Cwyn bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu ar sawl achlysur ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd.

#### **Penderfyniad**

Ombwdsmon yn ystyried os am ymchwilio.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.